## Sut mae Llywodraeth y DU yn cyflawni ei hymrwymiad i bobl Cymru

Mae Llywodraeth y DU yn cyflawni Cymru gryfach, o fewn Teyrnas Unedig gryfach, mewn amryw o feysydd. Rydym yn mynd i'r afael â'r heriau mae ein gwlad yn eu hwynebu, yn ogystal ag adeiladu Teyrnas Unedig sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

### Economi Gryfach a Phrydain Fyd-eang: cefnogi economi Gymreig sy'n gryf, ac sy'n edrych tuag allan.

1) **Cefnogi polisi buddsoddiad tramor a masnach sy'n cyflawni dros Gymru**

Mae Llywodraeth y DU yn cefnogi busnesau ledled Cymru, ac yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddenu mwy o fuddsoddiad i Gymru. Yn 2017-2018, cefnogodd Llywodraeth y DU 93% o'r 57 o brosiectau Buddsoddi Uniongyrchol o Dramor i Gymru, gan greu dros 3,000 o swyddi. Buom yn gweithio ag amryw o randdeiliaid i greu hediad Qatar Airways i Faes Awyr Caerdydd. Fe aeth 44,000 o deithwyr ar yr hediadau hyn o fewn y chwe mis cyntaf. Disgwylir i hyn hefyd ddenu 1,500 tunnell o draffig llwytho dros y flwyddyn. Mae Llywodraeth y DU wedi lansio Portffolio Cymru yn MIPIM yng Nghannes, gan arddangos chwe prosiect mawr o fuddsoddiad cyfalaf i'r buddsoddwyr mwyaf yn y byd. Roedd hyn hefyd yn enghraifft nodedig o Lywodraeth y DU yn cydweithio â nifer o Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Rydym hefyd yn cydweithio â UK Export Finance i ddarparu cymorth i fusnesau yng Nghymru, ac mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi hyrwyddo Cymru ledled y byd drwy genhadaeth masnach i farchnadoedd fel Qatar, Japan a Hong Kong.

Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn hyrwyddo Cymru yn ei waith fel aelod o'r Bwrdd Masnach, a Chadeirydd yr Is-Grŵp Buddsoddi Uniongyrchol o Dramor. Mae'n defnyddio'r ddwy rôl i hyrwyddo arbenigedd Cymru mewn amryw o sectorau, gan hyrwyddo cwmnïau a chynnyrch yn Ne Affrica ac yn yr UDA.Ym mis Awst 2018, fe aeth yr Ysgrifennydd Gwladol i ymweld â De Affrica gyda'r Prif Weinidog. Fel rhan o'r ymweliad hwnnw gyda dau gwmni o Gymru, Sure Chill a Hydro Industries, creodd yr Ysgrifennydd Gwladol Gonsortiwm Affrica. Mae'r Consortiwm yn gasgliad o gwmnïau sydd, wedi eu cysylltu drwy Lysgenadaethau Prydeinig yn Affrica, wedi cael gwybod am gyfleoedd sydd ar gael ac i ystyried ffyrdd o gydweithio.

2) **Sicrhau buddsoddiad seilwaith Llywodraeth y DU**

Mae gwella seilwaith trafnidiaeth Cymru yn allweddol i ffyniant economaidd Cymru yn y dyfodol. Dyna pam fod Llywodraeth y DU yn buddsoddi mwy nag erioed yn seilwaith rheilffyrdd Cymru – sef dros £1.5 biliwn i lwybrau rheilffyrdd Cymru a'r Gororau rhwng 2019 a 2024 – a fydd yn creu rheilffyrdd mwy a gwell i Gymru, gan gynnig teithiau gwell i deithwyr ar y trenau newydd mwyaf blaengar. Mae hyn yn cynnwys Prif Lein Great Western yn ne Cymru, lle bydd ein buddsoddiad o £5.7 biliwn mewn Trenau Intercity Express yn lleihau amseroedd teithio rhwng de Cymru a Llundain o 15 munud, ac yn cynnig 130 o seddi yn ychwanegol ar bob trên o gymharu â Thrên Cyflym arferol. Bydd hefyd, ar ôl cwblhau Crossrail, yn lleihau amseroedd teithio rhwng de Cymru a Chanary Wharf.

Bydd buddsoddiad £50 miliwn Llywodraeth y DU i wella Prif Linell Arfordir Gogledd Cymru yn rhoi hwb i gysylltiadau trafnidiaeth yr ardal, gan fanteisio i'r eithaf ar y buddiannau a geir o lein HS2 rhwng Crewe a Llundain. Bydd HS2 yn drawsnewidiol i economi'r wlad gyfan, ac mae dod â HS2 i Grewe yn 2027 – chwe blynedd yn gynnar – yn gyfle gwych i ogledd Cymru fanteisio ar y buddiannau hyd yn oed yn gynharach. Mae cyfraniad Llywodraeth y DU o £16.1 miliwn i wella'r Halton Curve hefyd yn golygu y bydd gwasanaethau trên yn rhedeg yn uniongyrchol rhwng gogledd Cymru a Lerpwl am y tro cyntaf ers degawdau.

Fis Rhagfyr y llynedd, cyflawnodd Llywodraeth y DU ymrwymiad eu maniffesto i ddiddymu'r tollau i groesi Afon Hafren. Bydd hyn yn cryfhau'r cysylltiadau rhwng cymunedau, ac yn trawsnewid rhagolygon economaidd de Cymru a de orllewin Lloegr, gyda £100 miliwn o hwb blynyddol yn bosib i economi de Cymru.

Mae Llywodraeth y DU hefyd yn buddsoddi mewn gwella cysylltedd yng Nghymru. Yn ddiweddar, fe gafodd Caerdydd £6 miliwn ac fe gafodd gogledd Cymru £8 miliwn gan y Rhaglen Rhwydweithiau Ffibr Llawn i helpu iddynt gael y rhwydwaith ddigidol cyflymaf a'r mwyaf dibynadwy sydd ar gael.

### 3) Cefnogi twf economaidd ledled Cymru

Mae Llywodraeth y DU wedi gosod y seiliau ar gyfer economi gryfach, ac mae'n cyflawni dros Gymru. Yng Nghymru yr oedd y cynnydd mwyaf mewn cyfraddau cyflogaeth y llynedd, ac mae yna 165,000 o bobl yn fwy mewn gwaith yng Nghymru nag yn 2010. Mae cynyddu'r Lwfans Personol yn golygu bod 61,000 o bobl yn llai yn talu treth incwm, ac mae 1.4m o bobl wedi elwa £183 ar gyfartaledd.

Yn y gyllideb ddiweddaraf, cyhoeddom gyllid o £120 miliwn ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru. Rydym yn parhau i gefnogi Rhanbarth Prifddinas Caerdydd i gwblhau'r Fargen Ddinesig – yr ydym wedi buddsoddi £500 miliwn ynddo – yn ogystal â £115 miliwn i Fargen Ddinesig Bae Abertawe.

Mae Bargeinion Twf Lleol yn rhan allweddol o'n Strategaeth Diwydiannol, sy'n darparu ar gyfer y DU gyfan ac mewn sawl sector. Er enghraifft, cafodd Rhanbarth Prifddinas Caerdydd ei hyrwyddo yn y MIPIM yng Nghannes, ac ei gefnogi gan Lywodraeth y DU. Mae'r rhanbarth wedi dechrau datblygu buddsoddiadau sydd yn yr arfaeth, a Fframwaith Buddsoddi newydd sydd wedi'i symleiddio, a fydd yn blaenoriaethu Cronfa'r Fargen Ddinesig i dri maes: arloesi a buddsoddi; seilwaith a; Chronfa Her.

Rydym wedi parhau i sicrhau bod Cymru'n aros yn lle cystadleuol ar gyfer buddsoddiad mewn diwydiannau amddiffyn. Ym mis Chwefror, cafodd MoD Sealand gontract £500 miliwn gan Adran Amddiffyn yr Unol Daleithiau ar gyfer y rhaglen F35. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi arwyddo contract £250 miliwn sy'n para 11 mlynedd i gefnogi fflyd Awyren Shadow yr Awyrlu Brenhinol (RAF) ym Mroughton, gan ddiogelu 200 o swyddi. Mae hyn yn golygu bod caffaeliad amddiffyn yng Nghymru ar y cyfan wedi cynyddu o £946 miliwn i £960 miliwn yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

**Ymadael â'r UE: sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu cynrychioli'n llawn wrth i ni adael yr UE.**

Rydym yn gweithio'n agos gydag adrannau ledled Llywodraeth y DU yn ogystal â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod Prydain yn ymadael â'r UE yn darparu ar gyfer pob rhan o'r DU.

4) **Sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli'n llawn yng nghynlluniau senarios Llywodraeth y DU ar gyfer ymadael â'r UE ac mewn partneriaethau economaidd yn y dyfodol**

Mae'r adran yn gweithio er mwyn sicrhau bod barn rhanddeiliaid ledled Cymru yn bwydo i mewn i waith y Llywodraeth ar ymadael â'r UE, a'i gynlluniau ar gyfer Cymru ffyniannus a llewyrchus o fewn Teyrnas Unedig gref pan fyddwn wedi gadael yr UE. Mae hyn yn cynnwys drwy gyfarfodydd cyson Panel Gweithredu Arbenigol Ymadael â'r UE yr Ysgrifennydd Gwladol. Yn ddiweddar, mae cynrychiolwyr o awdurdodau lleol yng Nghymru yn ogystal â sectorau'r amgylchedd, bwyd a diod wedi

ymuno â'r Panel. Mae cylch gwaith y panel hefyd wedi cael ei ehangu er mwyn ei alluogi i ganolbwyntio ar faterion ehangach sy'n ymwneud ag Ymadael â'r UE, gan gynnwys y cyfnod gweithredu a sut dylid dylunio a gweithredu fframweithiau cyffredin, yn ogystal â pharhau â'i drafodaethau ar Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF). Mae cyfarfodydd ar y cyd y Panel Arbenigol a Bwrdd Ymgynghori Economaidd yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn lwyfan defnyddiol i Aelodau allu bwydo eu barn yn uniongyrchol at galon proses y Llywodraeth o wneud penderfyniadau ar ymadael â'r UE.

Byddwn yn parhau i weithio ag adrannau eraill er mwyn hwyluso eu hymgysylltiad â rhanddeiliaid ehangach yng Nghymru, gan adeiladu ar sesiynau diweddar gyda swyddogion BEIS a HMT i ymchwilio i farn ar farchnad mewnol y DU ar ôl ymadael â'r UE.Byddwn hefyd yn adeiladu ar yr ymgysylltiad sydd eisoes yn digwydd gyda rhanddeiliaid yng Nghymru cyn yr ymgynghoriad ar yr UKSPF.

Mae'r Swyddfa hefyd yn darparu cefnogaeth i Weinidogion a swyddogion ar draws Llywodraeth y DU yn rhoi tystiolaeth i'r Cynulliad. Ym mis Ebrill y llynedd, bu Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol fel rhan o'i ymgynghoriad i Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael). Ym mis Hydref, bu'r Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn yr Adran dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a'r Gweinidog Gwladol dros Bolisi Masnach yn rhoi tystiolaeth ar wahân i'w gilydd i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar faterion yn ymwneud â Phrydain yn ymadael â'r UE.

### 5) Sicrhau bod deddfwriaeth ar ymadael â'r UE yn adlewyrchu buddion Cymru a'r DU

Bydd yr adran yn parhau i weithio gyda thimau biliau wrth iddynt baratoi deddfwriaethau allweddol i sicrhau bod y DU yn ymadael â'r UE mewn ffordd drefnus. Mae hyn yn cynnwys parhau i weithio gyda DEFRA ar y Bil Amaethyddiaeth a'r Bil Pysgodfeydd, yn ogystal â Bil yr Amgylchedd i sicrhau eu bod yn adlewyrchu buddion Cymru yn llawn yn ogystal â'r setliad datganoli Cymru.

Mae ein hymgysylltiad â rhannau eraill o Grŵp Llywodraethu'r DU, DEXEU a gyda Llywodraeth Cymru ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) (sef Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 bellach) wedi dod i gasgliad llwyddiannus gyda Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan roi caniatâd ar gyfer y Bil ar 15 Mai 2018. Cafodd hyn ei gefnogi gan

gytundeb rhynglywodraethol a Memorandwm ar y Bil a gan sefydlu fframweithiau cyffredin a gafodd ei arwyddo ar 25 Ebrill 2018 gan Lywodraeth y DU a gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r swyddfa wedi cydweithio'n agos ag adrannau eraill yn y Llywodraeth a gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni'r nifer fawr o ddeddfwriaethau eilaidd sydd eu hangen er mwyn sicrhau y bydd y llyfr statud yn weithredol ar y diwrnod y byddwn yn ymadael. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn dod â Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor ymlaen o dan adran 109 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 i wneud newidiadau angenrheidiol i Amserlenni 7A a 7B y Ddeddf honno yng ngoleuni ymadael â'r UE.Byddwn yn gweithio mewn ffordd adeiladol â Llywodraeth Cymru wrth i ni gyflawni hyn.Bydd angen i'r Gorchymyn drafft gael ei gymeradwyo gan y Senedd a gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Cenedl Unedig: hyrwyddo a chryfhau'r Undeb, a rôl Cymru ynddo**

6) **Sicrhau llais cryf i Gymru wrth galon yr Undeb**

Bydd y Swyddfa yn parhau i weithredu fel y ganolfan ar gyfer arbenigedd o fewn y Llywodraeth ar setliad datganoli Cymru. Mae Gweinidogion a swyddogion yn darparu llais cryf dros Gymru yn Whitehall, gan ymgysylltu â'u swyddogion cyfatebol mewn adrannau eraill er mwyn cyfrannu at ddatblygiad polisi Llywodraeth y DU yn gynnar, fel bod unrhyw oblygiadau'n cael eu hystyried.

Yn ogystal, rydym yn gweithio i sicrhau bod Cymru wrth galon y penderfyniadau y mae'r adran yn eu gwneud ar yr Undeb. Fel rhan o hyn, rydym yn gweithio'n agos ag adrannau eraill wrth iddynt ddiweddaru eu Cynlluniau Ymgysylltu Datganoli, gan sicrhau bod cynlluniau'n hyrwyddo buddion Cymru'n briodol.

Byddwn hefyd yn parhau i gydlynu gweithgaredd Llywodraeth y DU yng Nghymru, gan gynnwys ymweliadau gan Weinidogion sy'n arddangos ac yn cefnogi ymrwymiad y Llywodraeth i Gymru ac i'r Undeb. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae hyn wedi cynnwys presenoldeb yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd yn Sioe Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf, a'r Canghellor yn ymweld ag Abertawe ym mis Medi.

7) **Sicrhau bod setliad datganoli presennol Cymru yn gweithio'n effeithiol.**

Rydym yn parhau i sicrhau bod y setliad datganoli'n gweithio'n effeithiol er budd pobl yng Nghymru ac yng ngweddill y DU. Daeth model cadw

pwerau datganoli Cymru, a gafodd eu cyflwyno yn Neddf Cymru 2017, eu rhoi ar waith ar 1 Ebrill 2018 ochr yn ochr â mwyafrif y pwerau newydd dan y Ddeddf honno. Er mwyn cefnogi adrannau wrth iddynt weithio â'r setliad newydd, cyhoeddom Nodyn Cyfarwyddyd Datganoli 'Deddfwriaeth y Senedd a'r Cynulliad sy'n Effeithio ar Gymru'. Yn dilyn cyhoeddi'r cyfarwyddyd hwn, cynhaliom seminarau ar draws Whitehall i sicrhau bod cydweithwyr yn deall yn union sut i weithio â setliad datganoli Cymru.

Fe drosglwyddom y swyddogaethau Gweinidogion y Goron a oedd yn weddill mewn meysydd datganoledig drwy Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018 a gafodd ei wneud ar 23 Mai. Gwnaethom hefyd gyflawni ein hymrwymiad i ymestyn pwerau benthyca Gweinidogion Cymru drwy roi'r gallu iddynt ddyfarnu bondiau ar gyfer gwariant cyfalaf.

### 8) Cefnogi buddiannau diwylliannol yng Nghymru, ledled y DU ac yn fyd-eang

Rydym yn parhau i hyrwyddo'r iaith Gymraeg, ac yn cydweithio ag adrannau eraill i sicrhau bod cynrychiolaeth o Gymru yng nghyrff cyhoeddus y DU. Bu'r swyddfa'n cydweithio'n agos ag Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar benodiad Rhodri Williams, Owen Derbyshire ac Anita George fel ymddiriedolwyr ar gyfer bwrdd S4C ym mis Gorffennaf, ac ailbenodiad Hugh Hesketh-Evans ym mis Tachwedd. Mae'r penodiadau hyn helpu i sicrhau llywodraethu cryf ar gyfer S4C a bod buddiannau diwylliant Cymreig a'r iaith Gymraeg yn parhau i fod yn hollbwysig i waith S4C.

Bydd y Swyddfa yn parhau i gefnogi digwyddiadau diwylliannol Cymreig ledled y DU. Am y trydydd blynedd yn olynol, mae'r Swyddfa wedi chwarae rôl ganolog yn Wythnos Cymru yn Llundain, a ddigwyddodd rhwng 23 Chwefror a 9 Mawrth. Gwnaethom gynnal pedwar digwyddiad llwyddiannus gyda phartneriaid hen a newydd. Roedd digwyddiad Dydd Gŵyl Dewi blynyddol yn 10 Stryd Downing yn llwyddiant allweddol, gan alluogi i'r Swyddfa ymgysylltu â rhanddeiliaid ar hyd amrywiaeth o sectorau.